



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Cyhoeddir yn unol ag adran 4(2)(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Dyddiad: 20 Gorffennaf 2023

Camau gall pob corff cymryd:

Cynllunio a chyfathrebu

- ⇒ Datblygu a chyhoeddi polisi ar hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, yn unol â'r safonau
- ⇒ Gwneud datganiad ynghylch amcanion y sefydliad o ran defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a mabwysiadu a chyfathrebu'r datganiad yn effeithiol
- ⇒ Llunio cynllun gweithredu'n dangos pa gamau fydd yn cael eu cymryd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ynghyd â'r amserlen, dulliau mesur, a threfniadau cyfrifoldeb ac atebolrwydd
- ⇒ Penodi pencampwyr sy'n gyfrifol am hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn eu timau neu adrannau, sicrhau bod rôl y pencampwyr yn glir iddynt, a chynnull y pencampwyr mewn rhwydwaith i drafod eu profiadau
- ⇒ Cynnal arolwg defnydd iaith er mwyn mesur y defnydd presennol a'r defnydd potensial o'r Gymraeg o fewn y sefydliad
- ⇒ Cynnal ymarferiadau casglu barn ansoddol fel cyfweiliadau neu grwpiau trafod er mwyn deall ymddygiad iaith staff
- ⇒ Rhoi trefniadau ar waith i goladu'r data ac adrodd arno'n rheolaidd er mwyn monitro cynnydd

Newid arferion

- ⇒ Sefydlu dull o weithio gyda staff unigol i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg, llunio cynllun datblygu personol, a darparu cefnogaeth ddilysol
- ⇒ Gweithredu pecyn ARFer
- ⇒ Sefydlu parthau Cymraeg o fewn lleoliadau gwaith
- ⇒ Mapio siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad ac addasu'r strwythur a threfniadau swyddfeydd i greu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr neu reolwyr
- ⇒ Ystyried defnydd mewnol o'r Gymraeg wrth adnabod yr angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio i swyddi gwag a newydd
- ⇒ Adolygu cyfathrebiadau mewnol y sefydliad er mwyn sicrhau bod mwy, neu'r cwbl, ohonynt yn cael eu darparu yn Gymraeg
- ⇒ Adnabod arweinwyr allweddol o fewn y sefydliad a dylanwadu arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg neu hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan eraill, er enghraifft drwy fentora, hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith neu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau fel cyfarfodydd
- ⇒ Trefnu cyfleoedd anffurfiol a chymdeithasol rheolaidd i staff ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd

Technoleg ac adnoddau

- ⇒ Gosod meddalwedd cyfieithu testun awtomatig a pheirianyddol ar gyfrifiaduron staff, ei hyrwyddo a sicrhau bod staff yn gwybod sut i'w ddefnyddio, gan gynnwys wedi ei integreiddio â rhaglenni e-bost, sgwrsio a drafftio
- ⇒ Defnyddio cyfieithu ar y pryd drwy Teams neu Zoom ar gyfer cyfarfodydd mewnol pan fo hynny'n addas
- ⇒ Gosod rhyngwyneb Cymraeg yn ddiodyn ar gyfrifiaduron siaradwyr Cymraeg, neu gynnig y rhyngwyneb Cymraeg yn rhagweithiol iddynt
- ⇒ Adolygu systemau TG a ddefnyddir gan staff i sicrhau bod eu rhyngwyneb ar gael yn Gymraeg a'u bod yn caniatáu mewnbynnu a gweld cynnwys yn Gymraeg
- ⇒ Defnyddio logo Iaith Gwaith neu ddulliau eraill, naill ai mewn person neu ar-lein, i'w gwneud yn glir pa staff sy'n siarad Cymraeg
- ⇒ Sefydlu a hyrwyddo gwasanaeth prawf ddarllen gwaith a ddrafftiwyd gan staff yn Gymraeg

Hyder a sgiliau

- ⇒ Cynnig darpariaeth 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i datblygu sgiliau staff
- ⇒ Sefydlu cynllun lle mae staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu paru â mentor fydd yn cynnal sgysiau rheolaidd â nhw i roi cyfle iddynt ddod yn fwy hyderus wrth siarad Cymraeg
- ⇒ Darparu hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol, er enghraifft wrth gadeirio cyfarfodydd neu hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau iaith

Cyflwyniad

Pwysigrwydd defnydd mewnol o'r Gymraeg

Mae'r Comisiynydd bob amser yn rhoi sylw i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno. Rydym yn treulio cyfran helaeth o'n bywydau yn y gwaith, ac felly rydym eisiau galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith i'r graddau y mae hynny'n bosib.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn sôn am y gweithle fel gofod allweddol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedir bod y "gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion", gan ei fod yn gyfle i siaradwyr ar bob lefel ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Noda'r strategaeth fod "rhaid cyrff eisoes yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol, gan gynyddu'r galw am sgiliau Cymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio".

Gofyniad i gael polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar rhai sefydliadau i osod allan sut y byddant yn hybu a hwyluso defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob sefydliad sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg, a byddwn yn gwirio bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r gofynion drwy waith monitro arferol y Comisiynydd.

Fodd bynnag, does dim i atal cyrff nad ydynt o dan dyletswyddau statudol i gymryd camau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ym mhob maes gwaith. Mae rhai o'r camau gweithredu amlinellir yn y ddogfen hwn yr un mor berthnasol i waith ym mhob sector.

Amcanion y prosiect

Mae'r Comisiynydd yn cynnal prosiect gyda'r nod o sicrhau bod nifer o sefydliadau'n gweithredu ymyriadau a fydd yn cynyddu defnydd eu staff o'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn cynnwys:

- o Arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau
- o Gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu
- o Dylanwadu ar bolisi ac adnoddau.

Mae'r pecyn hwn yn rhan o'r arweiniad a chefnogaeth a gynigir i sefydliadau. Mae hyn yn seiliedig ar drafodaethau â sefydliadau ynghylch eu harferion presennol, gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill, a thystiolaeth o brosiectau ac ymchwil blaenorol. Mae'r ymyriadau wedi eu rhannu'n bedwar categori:

- o **Cynllunio a chyfathrebu** – trefniadau corfforaethol y gall sefydliadau eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau bod yr ymdrechion yn llwyddo
- o **Newid arferion** – ymyriadau i gymell staff i newid yr iaith y maent yn ei defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd
- o **Technoleg ac adnoddau** – yr isadeiledd sydd ei angen i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- o **Hyder a sgiliau** – ymyriadau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r iaith.

Byddai cynnydd yng nghapasiti Cymraeg sefydliadau – hynny yw, cynyddu'r ganran o staff sefydliadau sydd â sgiliau Cymraeg, naill ai drwy recriwtio neu hyfforddiant – yn debygol o gael effaith ar y defnydd mewnol o'r iaith. Rydym yn cefnogi ymdrechion sefydliadau i gynyddu eu capasiti Cymraeg yn unol â'r safonau drwy recriwtio a gwella sgiliau.

Maes o law, gall hyn arwain at sefydliadau'n gweinyddu'n bennaf neu'n llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg – rhywbeth a fyddai'n gadarnhaol iawn o ran statws y Gymraeg a galluogi mwy o bobl i fyw eu bywydau proffesiynol drwy'r iaith. Nod y prosiect hwn yn y lle cyntaf yw canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i aelodau staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Mae'n bosib y bydd nifer o'r camau yn y pecyn hwn eisoes ar waith yn naturiol, neu na fyddant yn angenrheidiol, lle mae bron y cwbl o'r staff yn siarad Cymraeg.

Mae'n anochel y bydd newidiadau i drefniadau gwaith y mwyafrif o sefydliadau yn sgil Covid-19, gyda mwy o weithio adref, gweithio'n hyblyg, a defnydd o dechnoleg yn golygu y bydd gofyn i ni fod yn hyblyg ac addasu i batrymau gwaith a fydd yn esblygu er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau'n amharu ar ddatblygiad y Gymraeg fel iaith gwaith.

Rhoi'r pecyn hwn ar waith

Gall y pecyn fod o gymorth i bob sefydliad ddatblygu eu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a gweithredu ymyriadau i hybu a hwyluso'r defnydd. Byddem yn falch iawn o weld sefydliadau sydd â chanrannau llai o siaradwyr Cymraeg yn gweithredu'r ymyriadau sy'n addas i'w cyd-destun hwy.

Cynllunio a chyfathrebu

1 Ymrwymiad sefydliadol

- 1.1 Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Gall polisïau sefydliadau osod allan sut y byddant yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gan ystyried eu sefyllfa benodol nhw.
- 1.2 Byddem yn annog sefydliadau i wneud datganiad clir sy'n ei gwneud yn amlwg i staff beth yw amcan y sefydliad o ran defnydd mewnol o'r Gymraeg. Gall gwneud hyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol fod cefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod staff di-Gymraeg yn deall ac yn coleddu ymrwymiad y sefydliad.

- 1.3 Gall datganiad o'r fath fod ar ffurf targed tymor hir, er enghraifft:

“Erbyn 2025 rydym eisiau i'n holl staff sy'n siarad Cymraeg adrodd eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith 70% o'r amser.”

“Erbyn 2030 byddwn yn sefydliad sy'n gweithredu'n gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.”

“Erbyn 2035 rydym yn mynd i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.”

- 1.4 Gall hefyd fod ar ffurf datganiad o ymagwedd, er enghraifft:

“Byddwn yn cefnogi ein holl staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith lle mae hynny'n bosib.”

“Cymraeg yw iaith weithredol y sefydliad hwn.”

“Rydym yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle mae ein holl staff yn gallu gweithio yn eu dewis iaith.”

- 1.5 Mae'n bwysig fod y sefydliad wedyn yn amlinellu pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cyflawni beth mae'r datganiad yn ei ddweud.
- 1.6 Mae hefyd yn bwysig fod y sefydliad yn cofleidio'r datganiad, er enghraifft:
 - o Gall pennaeth y sefydliad gyfathrebu'r ymrwymiad i staff
 - o Gall y corff sy'n rheoli neu'n craffu ar waith y sefydliad, er enghraifft y bwrdd neu'r cyngor, fabwysiadu'r ymrwymiad yn ffurfiol
 - o Gellir cyfathrebu'r ymrwymiad yn allanol, er enghraifft drwy wneud datganiad i'r wasg neu gyfeirio ato wrth recriwtio.

- ⇒ Datblygu a chyhoeddi polisi ar hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, yn unol â'r safonau
- ⇒ Gwneud datganiad ynghylch amcanion y sefydliad o ran defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a mabwysiadu a chyfathrebu'r datganiad yn effeithiol

2 Cynllun gweithredu

- 2.1 Bydd yn fuddiol i sefydliadau gael cynllun gweithredu sy'n dangos pa gamau y byddant yn eu cymryd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Gall y cynllun fod yn rhan o'r polisi, yn atodiad iddo, neu'n ddogfen ar wahân.
- 2.2 Gall cynllun gweithredu gynnwys:
- Disgrifiad o'r camau fydd yn cael eu cymryd, gan gynnwys yr ymyriadau yn y ddogfen hon
 - Amserlen ar gyfer rhoi'r camau ar waith. Gellir gweithredu ar draws y sefydliad cyfan neu wneud gwaith dwys gydag adrannau neu dimau unigol yn eu tro
 - Dangosyddion ar sail data neu dystiolaeth a gesglir (gw. adran 6)
 - Cyfrifoldeb ac atebolrwydd, gan gynnwys:
 - Pwy fydd yn gyfrifol am gydlynu gweithredu'r camau o ddydd i ddydd
 - Pa gamau fydd angen i adrannau cefnogol y sefydliad eu cymryd (e.e. adnoddau dynol / cyfieithu / dysgu a datblygu)
 - Pa gamau fydd angen i reolwyr a staff o fewn adrannau'r sefydliad eu cymryd
 - Beth fydd y drefn a'r amserlen ar gyfer adrodd ar weithrediad y cynllun
 - Pwy fydd yn derbyn diweddariadau ac yn craffu ar weithrediad y cynllun, er enghraifft pennaeth neu gyfarwyddwr, neu fwrdd rheoli penodol ar gyfer y prosiect.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Llunio cynllun gweithredu'n dangos pa gamau fydd yn cael eu cymryd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ynghyd â'r amserlen, dulliau mesur, a threfniadau cyfrifoldeb ac atebolrwydd

3 Ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol

- 3.1 Mae'n bwysig ei gwneud yn glir i staff fod y sefydliad yn awyddus i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a fod cefnogaeth ar y lefel uchaf o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Gellir defnyddio dulliau cyfathrebu mewnol er mwyn:
- Sicrhau bod staff yn gwybod am ymrwymiad y sefydliad i hybu a hwyluso defnydd mewnol o'r Gymraeg
 - Cymell staff i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau
 - Rhoi gwybod i staff am y gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael.
- 3.2 Gellir defnyddio'r dulliau mae'r sefydliad yn arfer eu defnyddio a chynnwys defnyddio'r Gymraeg fel rhan o raglenni cyfathrebu mewnol cyffredinol. Er enghraifft, gellir defnyddio:
- Mewnruwyd
 - Negeseuon e-bost mewnol
 - Llofnodion e-bost
 - Arddangos deunydd mewn llefydd amlwg o fewn swyddfeydd
 - Cylchlythyr neu fwletin staff.
- 3.3 Wrth lunio negeseuon, gall fod yn fuddiol rhoi sylw i egwyddorion fframwaith [MINDSPACE: Influencing behaviour through public policy](#), a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Institute for Government yn 2010, sy'n crynhoi'r dylanwadau mwyaf cyffredin ar benderfyniadau. Er enghraifft:
- "Negesydd: Cawn ein dylanwadu'n drwm gan bwy sy'n cyfathrebu gwybodaeth" – gellir defnyddio rhywun sydd mewn safle o awdurdod neu ddylanwad yn y sefydliad, neu gydweithwyr y bydd staff yn uniaethu â nhw
 - "Normau: Cawn ein dylanwadu'n drwm gan beth mae pobl eraill yn ei wneud" – gellir cyfleu bod defnyddio'r Gymraeg yn rhywbeth arferol o fewn y sefydliad, sy'n digwydd fwyfwy
 - "Dewisiadau diofyn: Rydym yn mynd gyda llif dewisiadau sydd wedi eu gosod yn barod" – gellir annog pobl i gychwyn cyfarfodydd neu gyswllt arall yn Gymraeg
 - "Ymrwymadau: Rydym eisiau cadw at yr addewidion rydyn ni'n eu gwneud yn gyhoeddus, ac ymddwyn tuag at bobl yn y ffordd maen nhw'n ymddwyn tuag atom ni" – gellir annog pobl i wneud ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Defnyddio dulliau cyfathrebu mewnol i ganiatáu ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael

4 Pencampwyr defnyddio'r Gymraeg

- 4.1 Gellir rhoi cyfrifoldeb i unigolion o fewn timau am hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn eu cyd-destun gwaith nhw.
- 4.2 Mae gan rai sefydliadau bencampwyr y Gymraeg eisoes ar gyfer materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth ac ymwneud â'r cyhoedd. Mae eu rôl yn tueddu i gynnwys:
 - Atgoffa cydweithwyr o'r gofynion a'u cefnogi i gyflawni
 - Adrodd i'r canol ar unrhyw broblem neu lwyddiant
 - Pasio negeseuon o'r canol i'w cydweithwyr
 - Ysbrydoli cydweithwyr.
- 4.3 Gellir naill ai ychwanegu defnydd mewnol at eu cyfrifoldebau nhw, neu adnabod unigolion eraill addas.
- 4.4 Gweithgareddau y gallai bencampwyr ymgymryd â nhw o ran defnydd mewnol a'r Gymraeg yw:
 - Gwneud pwynt o siarad Cymraeg â chydweithwyr er mwyn newid arfer iaith y swyddfa
 - Trosglwyddo negeseuon a gwybodaeth, er enghraifft gwneud cydweithwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael, a'u hannog i fanteisio arnynt
 - Helpu cydweithwyr i ddod yn fwy hyderus i siarad Cymraeg, er enghraifft drwy gynnig cyfleoedd i ymarfer neu helpu i ddrafftio
 - Awgrymu a gweithredu syniadau am ymyriadau a fyddai'n gweithio i'w cydweithwyr
 - Dathlu llwyddiannau.
- 4.5 Gellir dod â phencampwyr at ei gilydd mewn rhwydweithiau i rannu arferion a phrofiadau.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Penodi bencampwyr sy'n gyfrifol am hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn eu timau neu adrannau, sicrhau bod rôl y bencampwyr yn glir iddynt, a chynnull y bencampwyr mewn rhwydwaith i drafod eu profiadau

5 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

- 5.1 Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff, dim ots a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio:

Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—
(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr

iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);

(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;

(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Safonau'r Gymraeg

- 5.2 Mae eisoes yn ofynnol, felly, trafod defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y sesiynau hyn. Os yw'r sefydliad yn mynd ati i weithredu ymyriadau i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gall sesiynau ymwybyddiaeth iaith fod yn gyfle gwych i:
- Gwneud yr holl staff yn ymwybodol o ymrwymiad y sefydliad i hybu a hwyluso defnydd mewnol o'r Gymraeg
 - Sicrhau bod staff di-Gymraeg yn gwybod sut y gallent ymddwyn er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan eu cydweithwyr
 - Rhoi gwybod i siaradwyr Cymraeg pa gefnogaeth ac adnoddau sydd ar gael, a phwysleisio bod y sefydliad eisiau eu hannog i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg
 - Adnabod aelodau staff sy'n awyddus i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg fel y gellir eu cefnogi.
- 5.3 Gellir integreiddio cynnwys newydd ynghylch defnydd mewnol i'ch hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith presennol.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Adolygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith y sefydliad er mwyn sicrhau i fod yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol

6 Data a thystiolaeth

- 6.1 Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol casglu data am nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg, ond nid am y defnydd o'r iaith gan staff.
- 6.2 Gall casglu data a thystiolaeth ynghylch defnydd mewnol fod yn ddefnyddiol i:
- Sefydlu gwaelodlin – wrth ailadrodd yr ymarferiad casglu gwybodaeth, gellir gweld pa mor effeithiol yw'r ymyriadau a roddwyd ar waith
 - Trefnu'r gweithlu – fel y nodir yn adran **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.**, gellir adnabod cyfleoedd i drefnu'r gweithlu mewn ffyrdd sy'n arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg
 - Adnabod anghenion ar lefel aelod staff unigol – gweler adran **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.**

Arolwg defnydd iaith

- 6.3 Mae cynnal arolwg penodol ynghylch y defnydd mae staff yn ei wneud o'r Gymraeg yn ffordd o gael tystiolaeth feintiol am eu harferion.

- 6.4 Gellir naill ai gwneud hyn fel arolwg ar wahân neu ei gynnwys mewn gwaith arall mae'r sefydliad yn ei wneud, er enghraifft arolwg sgiliau / bodlonrwydd. Gellir defnyddio ymatebion arolwg sgiliau er mwyn adnabod yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn eu cael i lenwi'r arolwg defnydd iaith.
- 6.5 Byddem yn awgrymu mai'r ffordd symlaf o weithredu fyddai gofyn i staff nodi pa ganran o'u hamser yn y gwaith maent yn defnyddio'r Gymraeg ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir gofyn iddynt hefyd pa ganran o'r amser yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg. Gellid strwythuro'r arolwg fel hyn:

Sgyrsiau anffurfiol â chydweithwyr ar lafar

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Cyswllt anffurfiol â chydweithwyr yn ysgrifenedig (e-bost / negeseuon)

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Drafftio llythyrau a dogfennau mewnol

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Cyfarfodydd â chydweithwyr

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Cyfarfodydd sefydliad / adran / tîm

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Cyfarfodydd â sefydliadau eraill

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

Drafftio dogfennau a gohebiaeth swyddogol at ddefnydd allanol

Defnydd ar hyn o bryd 0% ----- 100%

Faint hoffech chi ddefnyddio 0% ----- 100%

- 6.6 Gallai'r arolwg hefyd gynnwys cwestiynau ansoddol, er enghraifft:

Beth sy'n eich atal rhag defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith?
Pa gefnogaeth fyddai'n eich galluogi i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith?

Dulliau ansoddol

- 6.7 Er mwyn cael dealltwriaeth fwy cyfoethog o'r sefyllfa, gellir cynnal grwpiau trafod neu gyfweiliadau â staff. Gallai'r ymarferion hyn hefyd geisio sefydlu'r

defnydd presennol o'r Gymraeg a'r awydd i gynyddu, ond bydd prif werth tystiolaeth ansoddol mewn darganfod beth yw'r rhwystrau a'r datrysiadau.

Dangosyddion eraill

- 6.8 Gellir casglu data o ffynonellau eraill er mwyn cael syniad o faint o ddefnydd sydd yna o'r Gymraeg yn fewnol, er enghraifft:
- Nifer staff sydd wedi manteisio ar y cynnig i gael deunyddiau yn Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu
 - Nifer staff sy'n defnyddio systemau TG yn Gymraeg / wedi gosod gwiriwr sillafu etc
 - Lefelau defnydd o fersiwn Gymraeg y fewnwyd.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Cynnal arolwg defnydd iaith er mwyn mesur y defnydd presennol a'r defnydd potensial o'r Gymraeg o fewn y sefydliad
- ⇒ Cynnal ymarferiadau casglu barn ansoddol fel cyfweiliadau neu grwpiau trafod er mwyn deall ymddygiad iaith staff
- ⇒ Mapio'r ffynonellau data eraill a all roi syniad o'r defnydd mewnol o'r Gymraeg
- ⇒ Rhoi trefniadau ar waith i goladu'r data ac adrodd arno'n rheolaidd er mwyn monitro cynnydd

Newid arferion

7 Datblygiad personol aelodau staff

- 7.1 Drwy sicrhau bod defnyddio'r Gymraeg yn cael ei ystyried ym mhrosesau'r sefydliad ar gyfer datblygu ac edrych ar ôl staff, gellir sicrhau bod staff unigol yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn eu hamgylchiadau penodol nhw. O ran cyfrifoldeb am wneud hyn:
- Gellir cynnwys gweithgareddau addas yn y canllawiau i reolwyr llinell ynghylch cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad gyda'u staff, gan roi'r cyfrifoldeb ar reolwyr llinell i edrych ar ôl datblygiad eu staff yn y maes hwn. Mantais hyn yw bod gan y rheolwr llinell berthynas barhaus â'r staff, a'u bod yn deall eu gwaith yn dda
 - Gellir cael mentor neu swyddog sy'n gysylltiedig â'r prosiect defnydd mewnol i'w wneud. Mantais hyn yw y byddai'r unigolyn hwn yn gwybod am

y gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael ac yn gallu cynnig mwy o arbenigedd o ran pa ddatrysiadau sy'n debygol o weithio iddynt.

7.2 O ran adnabod staff i'w targedu:

- Gellir defnyddio ymatebion arolwg sgiliau er mwyn adnabod yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg
- Os oes angen targedu'n fanylach, gellir defnyddio ymatebion arolwg defnydd iaith er mwyn adnabod yr unigolion lle mae'r awydd mwyaf, a'r potensial mwyaf, i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg.

7.3 Gellir defnyddio ymateb yr aelod staff i'r arolwg defnydd iaith fel man cychwyn, gan archwilio'r meysydd lle gallent ddefnyddio mwy ar y Gymraeg.

7.4 Gallai'r ymarferiad adnabod:

- Gweithgareddau arferol yr aelod staff
- Faint sy'n digwydd yn Gymraeg ar hyn o bryd
- Faint allai ddigwydd yn Gymraeg
- Beth sydd angen digwydd er mwyn i fwy ddigwydd yn Gymraeg
- Camau gweithredu ar gyfer yr aelod staff a'r sefydliad.

7.5 Gellir llunio cynllun datblygu personol defnydd o'r Gymraeg ar gyfer yr aelod staff, i gynnwys ymrwymadau'r aelod staff o ran sut bydd yn newid ei arferion, ac ymrwymadau'r sefydliad o ran y gefnogaeth y bydd yn ei darparu.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Sefydlu dull o weithio gyda staff unigol i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg, llunio cynllun datblygu personol, a darparu cefnogaeth ddilynol

8 ARFer

- 8.1 Datblygwyd y rhaglen ARFer gan Brifysgol Bangor drwy nawdd Llywodraeth Cymru.
- 8.2 Amcan ARFer yw cefnogi staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'i gilydd yn y gwaith. Mae'n addas i bawb o fewn y gweithle – staff sy'n rhugl yn y Gymraeg, staff sy'n deall Cymraeg ond sy'n ddi-hyder i'w defnyddio a staff sy'n dysgu Cymraeg.
- 8.3 Mae methodoleg ARFer wedi'i hysbrydoli gan broject Aldahitz a gynlluniwyd gan gwmni Soziolinguistika Klusterra yng Ngwlad y Basg ac mae wedi'i selio ar ddwy egwyddor o'r gwyddorau ymddygiad, sef:
 - o Gwneud ymrwymiad i ymddwyn mewn ffordd benodol
 - o Manteisio ar y dylanwad sylweddol mae rhagosodiadau yn gallu ei gael ar ymddygiad pobl.
- 8.4 Yn ei hanfod mae ARFer yn cefnogi unigolion a thimau o staff i wneud ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith ragosodedig ('default') mewn rhai cyd-destunau gwaith. Y nod drwy hynny yw 'normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg.
- 8.5 Mae ARFer yn cael ei ddatblygu i fod yn ap rhyngweithiol y gellir ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destunau gwaith i gefnogi newid mewn arferion iaith. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag arfer@bangor.ac.uk

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Gweithredu pecyn ARFer

9 Trefnu'r gweithlu

- 9.1 Ar ôl cynnal arolwg sgiliau Cymraeg ac arolwg defnydd iaith, bydd y sefydliad yn gwybod ym mha dimau a lleoliadau y mae'r aelodau staff sydd â sgiliau Cymraeg, a'r aelodau staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn aml ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n awyddus i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg.
- 9.2 Gall defnyddio'r wybodaeth hon yn glyfar fod yn effeithiol iawn ar gyfer hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rydym am weld sefydliadau'n ystyried sut i drefnu'r gweithlu mewn ffyrdd sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn siarad Cymraeg a'i gilydd. Wrth gwrs, bydd anghenion cynnal busnes angen eu hystyried ochr yn ochr a defnydd o'r Gymraeg – bydd gan rai sefydliadau fwy o hyblygrwydd na'i gilydd i weithredu'r awgrymiadau isod, er enghraifft sefydliadau mwy o faint, neu rai lle mae nifer fawr o staff yn gweithio yn yr un maes neu'n cyflawni'r un rôl.

Swyddfeydd

- 9.3 Os ydych yn defnyddio ‘desgio poeth’, gellir cael parthau Cymraeg lle bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu eistedd gyda chydweithwyr o wahanol adrannau sy’n siarad Cymraeg.
- 9.4 Os yw’r patrwm desgiau’n sefydlog, gellir gosod siaradwyr Cymraeg ar ddesgiau drws nesaf i’w gilydd, mewn clystyrau, neu yn yr un ystafelloedd.

Perthnasoedd gwaith

- 9.5 Gall sicrhau bod gan aelodau staff sy’n siarad Cymraeg reolwr llinell sydd hefyd yn siarad Cymraeg olygu bod llawer mwy o gyfleoedd iddynt ddefnyddio’r Gymraeg, gan gynnwys trafod pethau sensitif ar adegau.
- 9.6 Os oes nifer fawr o staff yn gweithio yn yr un maes neu’n cyflawni’r un rôl, wrth eu rhannu’n wahanol dimau neu unedau gwaith gellir gosod siaradwyr Cymraeg yn yr un timau â’i gilydd.

Recriwtio

- 9.7 Mae’n bwysig fod penderfyniadau a wneir wrth recriwtio’n cynnal neu gynyddu’r defnydd a wneir o’r Gymraeg. Mae’r safonau’n ei gwneud yn ofynnol ystyried y gofynion sgiliau Cymraeg wrth bennu gofynion swyddi. Mae dogfen gyngor arferion da’r Comisiynydd ar recriwtio’n nodi y gall ffactorau i’w hystyried gynnwys:

- 4.3 Gellir ystyried y canlynol fel rhan o’r meini prawf wrth ystyried gofynion ieithyddol swydd:
- **swyddogaeth** – a oes cyswllt allanol lle disgwylir i’r aelod staff allu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg fel ei gilydd; a fydd yn gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol lle ceir nifer neu ganran uchel o siaradwyr Cymraeg
 - **ystyriaethau lleol polisi iaith** sefydliad e.e. yr angen i weinyddu’n fewnol drwy’r Gymraeg, neu fod isafswm sgiliau iaith Gymraeg wedi’i osod ar gyfer swyddi penodol mewn polisi
 - **nifer presennol** y staff sydd ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg – disgwylir i gorff allu adnabod unrhyw fylchau mewn sgiliau iaith i ddarparu gwasanaethau
 - yr angen i **ddelio â sefydliadau eraill** sy’n gweinyddu’n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog.

Dogfen gyngor arferion da’r Comisiynydd ar recriwtio

- 9.8 Fel y gwelir, mae hwyluso defnydd mewnol yn ffactor y gellir ei ystyried, ac felly rydym am weld sefydliadau’n meddwl a ellir hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg drwy’r gofynion a osodir.
- 9.9 Yn ymarferol, gellir ystyried:
- A yw aelodau eraill y tîm neu’r adran yn siarad Cymraeg?
 - A oedd deilydd blaenorol y swydd yn siarad Cymraeg?

- A yw'r swydd yn cynnwys rôl rheolwr llinell ar siaradwyr Cymraeg?
- A yw'r swydd yn cynnwys cyswllt mynych a siaradwyr Cymraeg yn fewnol?

9.10 Yn ogystal â chynnal y sefyllfa bresennol, gellir ystyried a fyddai penodi siaradwr Cymraeg i'r rôl yn gallu arwain at gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan eraill.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Sefydlu parthau Cymraeg o fewn lleoliadau gwaith
- ⇒ Mapio siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad ac addasu'r strwythur a threfniadau swyddfeydd i uchafu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr neu reolwyr
- ⇒ Ystyried defnydd mewnol o'r Gymraeg wrth adnabod yr angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio i swyddi gwag a newydd

10 Cyfathrebiadau mewnol

10.1 Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol darparu rhai deunyddiau a gohebiaeth yn Gymraeg, er enghraifft gohebiaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth, rhai ffurflenni a pholisïau penodol, mewnwyd ac ati. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfodydd penodol, er enghraifft ynghylch cwynion a disgyblu, yn Gymraeg ar gais.

10.2 Gall y sefydliad fynd ymhellach na hynny er mwyn sicrhau bod mwy'n cael ei ddarparu yn Gymraeg. Bydd hyn, ynddo'i hun, yn cynnig mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hefyd yn anfon neges glir o ran ymrwymiad y sefydliad i ddefnydd mewnol o'r Gymraeg. Er enghraifft, gellir:

- Anfon e-byst a llythyrau at yr holl staff yn Gymraeg, yn enwedig negeseuon gan y pennaeth neu negeseuon corfforaethol
- Darparu cylchlythyrau a bwletinâu staff yn Gymraeg
- Cynnal cyfarfodydd holl staff yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd (i'r graddau mae'r staff sy'n cymryd rhan yn gallu siarad Cymraeg).

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Adolygu cyfathrebiadau mewnol y sefydliad er mwyn sicrhau bod mwy, neu'r cwbl, ohonynt yn cael eu darparu yn Gymraeg

11 Arweinwyr yn dangos esiamp

- 11.1 Nododd nifer o sefydliadau fad gweld arweinwyr o fewn y sefydliad yn defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn cyfarfodydd ffurfiol, yn cael dylanwad ar staff ar lefelau is. Gall hyn gynnwys:
- o Penaethiaid / cyfarwyddwyr / uwch-reolwyr o fewn y sefydliad yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd
 - o Pwy bynnag sy'n cadeirio cyfarfod yn defnyddio'r Gymraeg ac yn hwyluso defnydd o'r iaith gan eraill
 - o Aelodau etholedig, aelodau bwrdd, ac ati yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n craffu neu'n pennu cyfeiriad ar gyfer gwaith y sefydliad.
- 11.2 Mae gweld pobl o'r fath yn defnyddio'r Gymraeg yn rhoi'r neges ei bod yn ddilys defnyddio'r Gymraeg at ddiben gwaith a'i bod yn cael ei hannog a'i harddel o fewn y sefydliad.
- 11.3 Oherwydd hyn, bydd yn fuddiol dylanwadu ar arweinwyr er mwyn eu cael i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg. Dulliau o wneud hyn yw:
- o Sesiynau mentora unigol ar eu cyfer (gweler adran 7)
 - o Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith penodol ar eu cyfer (gweler adran 5)
 - o Hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd (gweler adran 22).

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Adnabod arweinwyr allweddol o fewn y sefydliad a dylanwadu arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg neu hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan eraill, er enghraifft drwy fentora, hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith neu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau fel cyfarfodydd

12 Cyfleoedd anffurfiol a chymdeithasol

- 12.1 Os oes aelodau staff sy'n llai hyderus wrth siarad Cymraeg, ac nad ydynt yn cael cyfleoedd mynych i wneud hynny yn eu cyd-destun gwaith arferol, gall fod yn fuddiol dod â staff ar draws y sefydliad at ei gilydd yn benodol er mwyn rhoi cyfle iddynt ymarfer defnyddio'r Gymraeg.
- 12.2 Roedd nifer o enghreifftiau o sefydliadau'n gwneud hyn yn Cau'r Bwlch, adroddiad sicrwydd 2019-20, a'r mwyafrif o'r rheiny wedi eu dylunio i ddod a dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd:

- 4.4.9 Mae nifer o sefydliadau'n gwneud ymdrech i sicrhau bod staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'u sgiliau a siarad â siaradwyr rhugl:
- o Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, ymgyrch "Mercher Marfer", ac is-grwpiau ar gyfer Dysgwyr a Hyrwyddwyr ar Workplace Facebook. Eleni, crëwyd

pecyn adnoddau newydd i'r Hyrwyddwyr er mwyn eu defnyddio yn y gweithle gyda Dysgwyr. Mae'r pecynnau yn cynnwys matiau A3, cardiau fflach, gemau a thafenni gwaith sydd wedi eu dylunio i helpu pobl sydd yn dysgu Cymraeg. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu hanfon i'r holl orsafoedd tân a swyddfeydd ardal. Mae gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn' / 'Ymrwymiad i'r Gymraeg' hefyd yn cael ei chyflwyno.

- Mae gan Heddlu Gwent rwydwaith dysgwyr Cymraeg sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg
- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru grŵp cerdded Cymraeg sy'n cyfarfod yn fisol ar ddydd Sul i alluogi siaradwyr Cymraeg a staff sy'n dysgu ymarfer eu Cymraeg yn ystod eu hamser eu hunain
- Mae Heddlu De Cymru wedi sefydlu grŵp 'Siop Siarad' ychwanegol yng Nghaerdydd sy'n caniatáu i swyddogion a staff yng Nghaerdydd ymarfer a gwella'u Cymraeg mewn lleoliad difyr ac anffurfiol
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnal eisteddfod staff er mwyn hybu'r diwylliant Cymraeg.

Cau'r Bwlch, Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2019-20

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Trefnu cyfleoedd anffurfiol a chymdeithasol rheolaidd i staff ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd

Technoleg ac adnoddau

13 Cyfieithu awtomatig a pheirianyddol

Testun

- 13.1 Mae meddalwedd cyfieithu awtomatig a pheirianyddol sydd ar gael am ddim yn galluogi staff i ddefnyddio llawer mwy ar y Gymraeg, ac felly gellir gwneud staff yn ymwybodol ohonynt a'u hannog a'u hyfforddi i'w defnyddio.
- 13.2 Mae [Google Translate](#) a [Microsoft Translator](#) yn cynnig cyfieithiadau eithaf cywir o destun Saesneg i'r Gymraeg ac fel arall. Ynndo'i hun, gall hyn helpu staff i ddrafftio'n ddwyieithog, er enghraifft drwy gael fersiwn Saesneg cyflym o destun maent wedi ei ddrafftio yn Gymraeg, neu helpu i wirio sut i greu testun Cymraeg.
- 13.3 Mae cywirdeb y cyfieithiadau a ddarperir gan feddalwedd fel hyn wedi gwella llawer dros y blynyddoedd diwethaf. Ni ellir gwarantu y bydd unrhyw destun yn gwbl gywir, ac felly dylai gael ei wirio'n ofalus cyn ei ddefnyddio'n allanol neu ar gyfer penderfyniadau pwysig, ond yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn rhoi argraff gywir o ystyr y testun gwreiddiol.
- 13.4 Yn ogystal â defnyddio'r feddalwedd drwy borwr gwe, mae nifer o ategion ar gael sy'n caniatáu cyfieithu'n hwylus o fewn systemau eraill.
- 13.5 Mae'n bosib gosod ategyn Google Translate ar wefannau er mwyn gweld y cynnwys yn Gymraeg hyd yn oed os nad yw'r darparwr wedi darparu fersiwn Cymraeg.
- 13.6 Mae'r ategyn 'Translator for Outlook' yn galluogi cyfieithu negeseuon e-bost – mae mwy o wybodaeth [ar wefan Microsoft](#).
- 13.7 Mae system negesu Microsoft Teams yn gallu cyfieithu'r holl negeseuon a dderbynnir yn awtomatig i'r iaith a osodir, dim ots beth oedd iaith y neges wreiddiol – mae mwy o wybodaeth [ar wefan Microsoft](#). Mae hyn yn gweithio'r ddwy ffordd:
- o Gall siaradwyr Cymraeg osod y system fel eu bod yn derbyn pob neges yn Gymraeg
 - o Gall aelodau staff di-Gymraeg osod y system fel eu bod yn derbyn pob neges yn Saesneg, gan alluogi siaradwyr Cymraeg i anfon negeseuon atynt yn Gymraeg.
- 13.8 Mae hefyd nodwedd 'Translator' o fewn nifer o raglenni eraill Microsoft Office, er enghraifft Word, Excel, OneNote a PowerPoint – mae mwy o wybodaeth [ar wefan Microsoft](#).
- 13.9 Mae mwy o wybodaeth am gyfieithu testun yn [nogfen gyngor y Comisiynydd](#).

Llafar

- 13.10 Ar hyn o bryd, nid yw systemau cyfieithu llais Microsoft na Google yn gallu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg nac fel arall, ond mae'n debygol y bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol. Bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, gan y bydd yn caniatáu i staff di-Gymraeg ddefnyddio datrysiad awtomatig i ddeall cyfraniadau Cymraeg.
- 13.11 Yn y cyfamser, gall cyfieithwyr ar y pryd hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Mae hyn yn bosib mewn cyfarfodydd fideo hefyd drwy ddefnyddio Zoom neu Teams.
- 13.12 Mae mwy o wybodaeth am gyfieithu llafar yn [nogfen gyngor y Comisiynydd](#), sy'n cynnwys atodiad ynghylch cyfieithu cyfarfodydd fideo.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Gosod meddalwedd cyfieithu testun awtomatig a pheirianyddol ar gyfrifiaduron staff, ei hyrwyddo a sicrhau bod staff yn gwybod sut i'w ddefnyddio, gan gynnwys wedi ei integreiddio â rhaglenni e-bost, sgwrsio a drafftio
- ⇒ Defnyddio cyfieithu ar y pryd, er enghraifft drwy Zoom neu Teams, ar gyfer cyfarfodydd mewnol pan fo hynny'n addas

14 Rhyngwyneb dyfeisiau

- 14.1 Mae rhyngwyneb cyfrifiaduron Windows ar gael yn Gymraeg. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol rhoi'r cynnig i staff gael y rhyngwyneb Cymraeg. Fodd bynnag, gall sefydliadau fynd ati i osod y rhyngwyneb Cymraeg ar gyfrifiaduron yr holl staff sy'n siarad Cymraeg, neu'n gallu gwneud hynny i lefel benodol, naill ai'n ddiofyn neu drwy drefn 'optio allan'.
- 14.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud hyn, gan nodi yn ei strategaeth ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg: "Bydd symud oddi wrth sefyllfa lle mae'r Saesneg wedi'i rhagosod yn rhoi llawer mwy o 'amser cyswllt' â'r Gymraeg i siaradwyr Cymraeg".
- 14.3 Gall hefyd gael effaith fwy pellgyrhaeddol drwy gyfrannu at newid agwedd – gall gweld y Gymraeg ar y cyfrifiadur bob tro gyflyru staff i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg mewn cyd-destunau eraill.
- 14.4 Mae rhyngwynebau Cymraeg i'w gweld [ar wefan y Comisiynydd](#).

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Gosod rhyngwyneb Cymraeg yn ddiofyn ar gyfrifiaduron siaradwyr Cymraeg, neu gynnig y rhyngwyneb Cymraeg yn rhagweithiol iddynt

15 Systemau TG

- 15.1 Mae'n debyg y bydd nifer fawr o staff yn defnyddio systemau TG arbenigol i wneud eu gwaith, er enghraifft:
- Systemau cofnodion adnoddau dynol
 - Systemau rheoli perthynas â'r cwsmer (CRM) neu reoli achosion
 - Basau data neu systemau cofnodi
 - Systemau rheoli gwybodaeth a chofnodion
 - Templedi ar gyfer creu dogfennau a gohebiaeth.
- 15.2 Gall sicrhau bod y systemau hyn yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg gynyddu eu defnydd o'r iaith. Gall hyn gynnwys:
- Sicrhau bod rhyngwyneb y systemau ar gael yn Gymraeg
 - Sicrhau bod y systemau'n caniatáu mewnbynnu a darllen cynnwys y system yn Gymraeg, gan gyfieithu ar gyfer aelodau staff di-Gymraeg os oes angen.
- 15.3 Mae systemau fel [Linguaskin](#) yn gallu cynnig ffordd o ddarparu rhyngwynebau yn Gymraeg ar gyfer systemau sydd gan y sefydliad eisoes.
- 15.4 Ar gyfer systemau sy'n cael eu caffael o'r newydd, gellir cyfeirio at [ddogfen gyngor y Comisiynydd](#) ar gyfer llunio meddalwedd a datblygu gwasanaethau TG dwyieithog o ansawdd er mwyn sicrhau bod y system yn galluogi defnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun i'w gynnwys mewn manylebau caffael sy'n hwyluso hyn, ac mae ar gael yma.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Adolygu systemau TG a ddefnyddir gan staff i sicrhau bod eu rhyngwyneb ar gael yn Gymraeg a'u bod yn caniatáu mewnbynnu a gweld cynnwys yn Gymraeg

16 Gwneud yn amlwg pwy sy'n siarad Cymraeg

- 16.1 Ni fydd staff bob amser yn gwybod pa rai o'u cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, ac felly gall gwneud hynny'n fwy amlwg arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg.
- 16.2 Mae logo Iaith Gwaith yn ffordd effeithiol a chyfarwydd o ddangos pwy sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae adnoddau a ffeiliau Iaith Gwaith ar gael [ar wefan y Comisiynydd](#). Mae'r adnoddau hynny'n cynnwys cefndir Iaith Gwaith ar gyfer cyfarfodydd Zoom, Teams ac ati.
- 16.3 Mae dulliau o ddangos pwy sy'n siarad Cymraeg yn cynnwys:
- Rhoi bathodynau / laniards i staff eu gwisgo

- Darparu geiriad neu graffeg ar gyfer llofnod e-bost sy'n dangos bod yr anfonwr yn siarad Cymraeg
- Nodi mewn cyfeirlyfr staff pwy sy'n siarad Cymraeg
- Defnyddio system fel MailTips yn Outlook i nodi pa staff sy'n siarad Cymraeg – mae mwy o wybodaeth [ar wefan Microsoft](#).

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Defnyddio logo Iaith Gwaith neu ddulliau eraill, naill ai mewn person neu ar-lein, i'w gwneud yn glir pa staff sy'n siarad Cymraeg

17 Cymhorthion terminoleg a drafftio

17.1 Mae nifer o gymhorthion ar gael sy'n helpu pobl i ddrafftio yn Gymraeg, ac felly gall rhannu'r rhain â staff eu galluogi i ddrafftio mwy yn Gymraeg.

Cysgliad

- 17.2 Mae [Cysgliad](#), sy'n becyn a ddarperir gan Brifysgol Bangor, yn cynnwys:
- Cysill – gwirydd sillafu, sy'n adnabod gwallau teipio a chamsillafu, gan dynnu sylw atyn nhw a chynnig cywiriadau, a gwirydd gramadeg, sy'n gallu cywiro camdreiglo a chamgymeriadau gramadegol, gan roi'r rheswm pam mae'r gwall yn cael ei ystyried yn anghywir
 - Thesawrws
 - Cysgeir – casgliad o eiriaduron defnyddiol a chynhwysfawr, sy'n cynnwys geiriau cyffredinol yn ogystal â thermau arbenigol o'r geiriaduron terminoleg sydd wedi cael eu datblygu ym Mhrifysgol Bangor dros y blynyddoedd.

Geiriaduron

- 17.3 Mae nifer o adnoddau geiriadurol a therminoleg ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein, gan gynnwys:
- [Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein](#)
 - [Geiriadur ar-lein Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#)
 - [Geiriadur yr Academi](#)
 - [Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#)
 - [Gweiadur](#)
 - [Porth Termau Cenedlaethol Cymru](#)
 - [Porth Termau Microsoft](#)
 - [TermCymru](#)
 - [Y Termiadur Addysg](#)

Microsoft Office

- 17.4 Mae [Pecyn Ategolyn Iaith Microsoft Office](#) yn ychwanegu offer arddangos, help neu brawfddarllen ychwanegol gan ddibynnu ar yr iaith rydych chi'n ei gosod.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Caffael cymhorthion terminoleg a drafftio a fydd yn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig, a'u hyrwyddo i staff

18 Prawffdarllen

- 18.1 Mae rhai sefydliadau'n cynnig gwasanaeth prawffdarllen i staff. Nod hyn yw bod staff yn drafftio deunydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac yna bod cyfieithwyr cymwys yn taro golwg dros y cynnwys er mwyn:
- Rhoi sicrwydd ei fod yn gywir cyn cael ei ddefnyddio
 - Rhoi cyngor i'r aelod staff ynghylch sut i ddrafftio'n well yn y dyfodol.
- 18.2 Mae manteision hyn yn cynnwys annog mwy o staff i ddrafftio yn Gymraeg, ac arbed amser cyfieithu i'r sefydliad gan ei bod fel arfer yn cymryd llai o amser i wirio testun na'i gyfieithu o'r cychwyn.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Sefydlu a hyrwyddo gwasanaeth prawffdarllen gwaith a ddrafftwyd gan staff yn Gymraeg

19 Hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg dan y safonau gweithredu

- 19.1 Mae'r safonau gweithredu'n ei gwneud yn ofynnol darparu nifer o bethau yn Gymraeg i staff, gan gynnwys:
- Galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn prosesau sy'n ymwneud â chwynion a disgyblu, a darparu polisiau yn Gymraeg
 - Galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfrifiadur drwy ddarparu meddalwedd gwirio sillafu, rhyngwynebaw, llofnodion e-bost, a mewnrwyd Cymraeg
 - Cynnig hyfforddiant er mwyn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, er enghraifft mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a datblygu, ac o fewn rôl rheolwr, a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, safonau'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
 - Cynnig fersiynau Cymraeg o hyfforddiant ar faterion penodol fel iechyd a diogelwch, a delio â'r cyhoedd
 - Arddangos arwyddion a gwneud cyhoeddiadau a negeseuon sain yn Gymraeg.
- 19.2 Mae ein gwaith ymchwil blaenorol yn awgrymu bod sefydliadau'n darparu'r rhain yn unol â'r gofynion ond nid oedd yn glir faint o ddefnydd a wneir ohonynt.
- 19.3 Fel rhan o'r prosiect cynyddu defnydd, gall sefydliadau fynd ati i gynyddu defnydd o'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ei bod ar gael, a chynnig y ddarpariaeth yn ddiodyn neu'n rhagweithiol.

- 19.4 Wrth fynd ati i hyrwyddo'r ddarpariaeth fewnol, gellir defnyddio'r un egwyddorion a thechnegau a gynigir yn [nogfen gyngor y Comisiynydd](#) ar gynyddu defnydd o wasanaethau i'r cyhoedd.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Adolygu deunyddiau a phrosesau mewnol i sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau gweithredu
- ⇒ Defnyddio dulliau cyfathrebu mewnol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r deunyddiau a'r prosesau y mae ganddynt hawl i'w derbyn yn Gymraeg dan y safonau gweithredu

Hyder a sgiliau

20 Cynyddu Sgiliau

- 20.1 Mae'r safonau gweithredu'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cynnig darparu hyfforddiant sy'n meithrin sgiliau Cymraeg staff o fewn eu hamser gwaith. Mae nifer o gyrff yn datblygu sgiliau Cymraeg staff fel rhan o'u hymrwymiad at y Gymraeg ac er mwyn gwella lefelau sgiliau eu staff i gynnal gwasanaethau. Mae hefyd fodd bynnag, modd ystyried sut all datblygu sgiliau staff cyfrannu ar gynyddu lefelau defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.
- 20.2 Mae'r Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig ystod o gefnogaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac i ddatblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 20.3 Mae hyblygrwydd o ran hyfforddiant sydd ar gael gan y Ganolfan – o gyrsiau blasu i gyrsiau preswyl dwys all datblygu sgiliau Cymraeg y gweithle yn unol ag anghenion.
- 20.4 Mae hefyd cefnogaeth ar gael i gyflogwyr gan gynnwys cefnogaeth wedi eu teilwra i sectorau penodol a chyngor ar sut i gefnogi dysgwyr yn y gweithle.
- 20.5 Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu gwiriwr lefel dysgu Cymraeg sy'n galluogi unigolion i wirio ei lefelau sgiliau Cymraeg ac i adnabod manau ble all hyfforddiant helpu datblygu sgiliau neu hyder y siaradwr.
- 20.6 Fel rhan o'r prosiect cynyddu defnydd, gall sefydliadau fynd ati i gynyddu defnydd o'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r cyrsiau sydd ar gael a drwy gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn y gwaith.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Cynnig darpariaeth 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i staff

21 Mentoriaid cyfoedion

- 21.1 Mae nifer o sefydliadau'n gweithredu cynlluniau lle mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn rhoi rhywfaint o amser i gefnogi cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg i ddefnyddio mwy ar yr iaith mewn cyd-destun gwahanol. Amcan hyn yw cynyddu hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 21.2 Mae pob dysgwr sy'n rhan o'r cynllun yn cael ei baru â mentor, ac fel arfer byddant yn cwrdd yn rheolaidd, naill ai wyneb yn wyneb neu dros fideo, er mwyn cael sgwrs. Gall mentoriaid gynnig cymorth arall hefyd, er enghraifft edrych dros negeseuon neu rywbeth arall y mae'r dysgwr wedi ei ddrafftio.

CAMAU GWEITHREDU

- ⇒ Sefydlu cynllun lle mae staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu paru â mentor fydd yn cynnal sgwrsiau rheolaidd â nhw i roi cyfle iddynt ddod yn fwy hyderus wrth siarad Cymraeg

22 Hyfforddiant a chanllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg

- 22.1 Gall siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr fel ei gilydd fanteisio ar hyfforddiant sydd â'r nod o gymell a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Cadeirio cyfarfodydd

- 22.2 Mae rôl y cadeirydd yn hollbwysig er mwyn galluogi ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Gall hyfforddiant i gadeiryddion gynnwys materion fel:
- Gosod y cywair ar gyfer y cyfarfod a gwneud yn glir fod modd defnyddio'r Gymraeg
 - Sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda ac yn bodloni anghenion pawb
 - Os nad oes cyfieithu ar y pryd ar gael, sicrhau bod mynychwyr di-Gymraeg yn deall cyfraniadau a wneir yn Gymraeg.

CAMAU GWEITHREDU

⇒ Darparu hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol, er enghraifft wrth gadeirio cyfarfodydd neu hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau iaith